Newyddion Ysgolion a Llywodraethwyr

Tymor yr Haf 2011

Yn y rhifyn hwn. .

- Datblygu Rôl Llywodraethwyr fel Cyfeillion Beirniadol
- Hyfforddiant i Lywodraethwyr 2011-12
- Grant Effeithiolrwydd Ysgolion 2011-12
- Rhaglen Moderneiddio Uwchradd ac Ôl-16
- Moderneiddio cynradd
- Llysgenhadon Ifanc
- Mesur Addysg (Cymru) 2011
- Yn Fyr

Powys

CYNGHORYDD STEPHEN HAYES - AELOD PORTFFOLIO AR GYFER DYSGU A HAMDDEN

Gyda'r Cyngor yn symud ymlaen at system 'gabinet' o lywodraethu yn ei Gyfarfod Blynyddol ym mis Mai, mae'r rhifyn hwn o'r Cylchlythyr Ysgolion a Llywodraethwyr yn ymddangos yn gyfle da i gyflwyno fy hunan fel yr aelod cabinet gyda chyfrifoldeb dros Ddysgu a Hamdden.

Rwyf wedi bod yn gynghorydd sir dros dref Trefaldwyn, lle'r wyf hefyd yn llywodraethwr ysgol, ers ychydig dros chwe blynedd yn awr. Am y tair blynedd diwethaf, rwyf wedi bod ar Fwrdd y Cyngor fel yr aelod portffolio Eiddo Corfforaethol a Llywodraethu Corfforaethol - rôl sydd wedi rhoi golwg hynod o ddiddorol i mi o weithrediadau'r cyngor, tra hefyd yn wynebu'r her o ad-drefnu'r ystod eang ac amrywiol o eiddo y mae'r cyngor wedi'u hetifeddu oddi wrth yr hen gynghorau sir a bwrdeistrefol, gan orchwylio stad ffermydd y sir, a chymryd rhan yn natblygiad adeiladau newydd ac adfywio'r rhai hŷn.

Y cabinet newydd fydd pwyllgor 'gweithredol' y cyngor, gyda'r naw aelod cabinet yn cael pwerau eang i wneud penderfyniadau yn eu meysydd portffolio, cyhyd â'u bod o fewn polisi ac o fewn cyllideb.

Rwyf yn bendant yn derbyn y portffolio Dysgu a Hamdden ar adeg o ddiddordeb eithriadol - a phwysedd eithriadol, gydag addysg heb amheuaeth o fewn llygad y cyhoedd, Gyda'n gilydd, rhaid i ni ganfod ffordd o sicrhau y gellir cynnal a hyd yn oed gwella ar gyraeddiadau uchel y gorffennol o fewn yr hinsawdd ariannol newydd, llym, gyda chofrestrau ysgol yn gostwng yn ddramatig. Efallai na fydd hyn yn gyfforddus. Byddwn oll - staff, cyrff llywodraethol, a'r tîm ysgolion hefyd yn Neuadd y Sir - yn gorfod edrych yn ofalus ar ein harferion a'n hagweddau presennol, a pheidio â bod yn ofnus eu newid os oes angen. Nid yw hyn yn golygu newid er mwyn newid yn ei hunan, ond rwy'n disgwyl y bydd ychydig o newid, hyn yn oed newid radical, yn angenrheidiol. Gall ychydig ohono ddeillio o fentrau newydd a gyflwynir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Bydd rhai newidiadau'n cael eu gorfodi arnom gan wirioneddau ariannol llwm. Daw eraill yn syml oherwydd ein bod yn sylweddoli y gallwn wneud y pethau yr ydym yn eu gwneud eisoes yn well mewn gwirionedd.

Beth bynnag a ddaw yn y dyfodol, rwy'n hyderus y bydd ein ffocws ar ragoriaeth cyfleoedd i'n holl ddysgwyr. Rydym oll yma i wasanaethu'r nod hwnnw yn y pendraw. Os bydd Powys yn magu disgyblion hyderus, sydd â'r gallu a'r parodrwydd i gymryd eu lle yn y byd modern, fe fyddwn wedi gwneud ein gwaith.

Rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda chi.

DATBLYGU RÔL LLYWODRAETHWYR FEL CYFEILLION BEIRNIADOL

Yn Ysgol Penmaes, rydym wedi gallu datblygu corff llywodraethol gweithgar ac ymrwymedig trwy weithio mewn partneriaeth agos. Ar fy niwrnod di-ddisgybl cyntaf, fe wnaeth staff a llywodraethwyr weithio ar ddatblygu ein gweledigaeth ar y cyd ar gyfer yr ysgol, trwy gynnwys yr holl ddeiliaid diddordeb i lunio ein Gweledigaeth a'n Hamcanion. Ailymwelir â'r rhain yn flynyddol i sicrhau eu bod yn parhau i gyfleu ein hethos a'n cyfeiriad.

Ym mis Medi 2009, dywedodd Estyn fod "y Corff Llywodraethol a'r SLMT yn cydweithio'n dda iawn gyda'r pennaeth i osod cyfeiriad clir ar gyfer datblygu a gwella'r ysgol". Ymhellach, dywedodd Estyn "mae rôl y Corff Llywodraethol fel cyfaill beirniadol yn nodwedd rhagorol o reolaeth cefnogol". Nid yw'r strategaethau a ddefnyddwyd i gyrraedd y safle hwn yn arloesol mewn unrhyw ffordd, ond maent wedi'u datblygu mewn modd systematig a'u gwella dros y blynyddoedd. Maent yn cynnwys:

• Datblygu rôl Llywodraethwr Bugeiliol sy'n gyfrifol am ymweld â'r ysgol bob tymor a darparu adroddiad ysgrifenedig ar feysydd fel trefniadaeth ysgol/dosbarthiadau, arddangosfeydd/golwg yr ysgol ac ymddygiad ac ethos. Rhennir yr adroddiad bugeiliol ysgrifenedig gyda'r Corff Llywodraethol llawn a chaiff ei gynnwys yn ein papur newydd ysgol tymhorol, fel bod yr holl ddeiliaid diddordeb yn cael mynediad i wybodaeth fanwl am ein ysgol.

• Mae'r holl llywodraethwyr yn gysylltiedig â maes cwricwlaidd, ac maent yn cwrdd ag arweinwyr pwnc yn rheolaidd. Mae hyn yn galluogi iddynt ddatblygu gwybodaeth weithiol agos o'r cwricwlwm. Mae'r dull hwn o fynd ati yn sicrhau fod gan y Llywodraethwyr wybodaeth fanwl o'u meysydd penodol hwy, ond hefyd, gallant ddatblygu trosolwg o'r cwricwlwm cyfan. Mae gwaith ar y cwricwlwm rhwng Llywodraethwyr a staff yn gorffen gyda Noswaith Cwricwlwm blynyddol yn nhymor yr haf, lle cytunir ar hunan arfarniad pwnc a chynlluniau datblygu.

• Mae Llywodraethwyr yn cael mynediad agored i'r holl HMS mewnol a gynhelir, ac maent yn rheolaidd yn ymuno â staff ar gyfer hyfforddiant a datblygu. Mae'r arfer hwn wedi dod yn rhan ganolog o'n harfer dyddiol. Mae hyn yn ffordd pwerus o weithio, ac yn hwyluso gwaith partneriaeth agos rhwng Llywodraethwyr a staff. Hefyd, mae'n galluogi i Lywodraethwyr gael mynediad i'r cymorth a'r datblygu sydd ei angen arnynt i wella eu rôl ar draws yr ysgol.

• Mae Llywodraethwyr yn ymuno â staff ar gyfer ein digwyddiadau hunan-arfarnu; mae hyn yn sicrhau eu bod yn cyfrannu at ac yn deall yr adroddiad hunan-arfarnu; hefyd, mae hyn yn gwella gweithio partneriaeth ac yn sicrhau atebolrwydd rhanedig

• Mae'r Llywodraethwyr yn cwblhau hunan-arfarniad/holiadur blynyddol sy'n cynnwys: eu rôl, eu cyfraniad at ddatblygu polisi, yr ysgol a'r gymuned a rheolaeth ariannol. Mae hyn hefyd yn caniatau i Lywodraethwyr restru nodweddion positif yr ysgol, yn ogystal â chynnwys meysydd y mae angen eu harchwilio a'u datblygu dros y flwyddyn i ddod; mae hyn yn darparu tystiolaeth uniongyrchol gwerthfawr, ac yn sicrhau y byddant yn cymryd rhan ym mhroses gwella'r ysgol.

• Mae'r Llywodraethwyr wedi datblygu cysylltiadau ardderchog gyda Chyngor yr Ysgol. Mae ein Athro Lywodraethwr yn gyfrifol am y cyswllt rhwng Cyngor yr Ysgol a'r Corff Llywodraethol. Trafodir cofnodion holl gyfarfodydd Cyngor yr Ysgol yng nghyfarfodydd y Corff Llywodraethol llawn, gydag adborth yn cael ei ddarparu i Gyngor yr Ysgol.

• Mae adroddiad tymhorol y pennaeth i'r Corff Llywodraethol yn darparu gwybodaeth fanwl ar ddatblygiad y cwricwlwm a pholisi, cynnydd tuag at dargedau yng nghynllun datblygu'r ysgol, cyrhaeddiad disgyblion (academaidd, cymdeithasol a chwaraeon), gweithio mewn partneriaeth, datblygiad proffesiynol parhaus, cyllid ayb. Mae darparu gwybodaeth gywir i Lywodraethwyr yn galluogi iddynt ddarparu'r sialens a'r cymorth angenrheidiol ar lefel unigol ac ar lefel ysgol gyfan.

Yn parhau ar dudalen 3

DATBLYGU RÔL LLYWODRAETHWYR FEL CYFEILLION BEIRNIADOL

• Yn dilyn ymgynghoriad y Corff Llywodraethol gyda rhieni, cytunwyd i sefydlu hysbysfwrdd y Corff Llywodraethol yng nghyntedd yr ysgol. Mae'r bwrdd hwn yn arddangos ffotograffau Llywodraethwyr, dyddiadau cyfarfodydd, Adroddiad Blynyddol i Rieni, cofnodion holl gyfarfodydd y Corff Llywodraethol ayb. (heblaw'r rheiny sy'n gyfrinachol). Mae hyn wedi helpu i godi proffil y Corff Llywodraethol.

• Mae Llywodraethwyr yn ymwelwyr rheolaidd i'r ysgol, a thrwy brotocol sydd wedi'i gytuno, gallant gael profiad uniongyrchol sy'n galluogi iddynt ddatblygu eu rôl fel "cyfaill beirniadol". Rydw i a Chadeirydd y Llywodraethwyr yn cwrdd o leiaf pob pythefnos. Ni allaf bwysleisio'n ddigon cryf fod y berthynas rhwng y Cadeirydd a'r pennaeth yn ganolog i sicrhau gwella'r ysgol gyfan ac atebolrwydd. Mae gennym berthynas weithio agos sy'n unrhyw beth heblaw "cysurus". Rydym wedi sefydlu partneriaeth gweithio effeithiol sy'n seiliedig ar onestrwydd, sialens proffesiynol a pharch tuag at ein gilydd.

Nid yw'r uchod yn rhestr hollgynhwysol, ond mae'n anelu i roi blas i chi o'r strategaethau llwyddiannus yr ydym wedi gallu eu datblygu dros y blynyddoedd sydd wedi arwain at ddealltwriaeth ac ethos rhanedig. Mae ein dull o fynd ati yn agored, ac ystyrir ei fod yn *"darparu arweinyddiaeth a chyfeiriad rhagorol ar gyfer datblygu'r ysgol"* (Estyn, 2009). Mae gweithio mewn partneriaeth gyda'r Corff Llywodraethol wedi galluogi i Benmaes barhau i wella'i pherfformiad ac i sicrhau gwell canlyniadau ar gyfer yr holl ddysgwyr (disgyblion, rhieni/gofalwyr, Llywodraethwyr a staff). Mae cael Llywodraethwyr gwybodus, sy'n dal y pennaeth a chymuned ehangach yr ysgol yn atebol, yn ein galluogi i gwrdd â'n Gweledigaeth a'n Hamcanion.

"Mae'r Corff Llywodraethol mewn sefyllfa dda i wneud penderfyniadau ar flaenoriaethau'r dyfodol ac i sicrhau fod y targedau a'r amcanion gwella realistig sy'n aml yn heriol yn cael eu diwallu" (Estyn, 2009).

Ian Elliott
Pennaeth, Ysgol Penmaes

HYFFORDDIANT I LYWODRAETHWYR 2011-12

Mae'r Llyfryn Hyfforddiant i Lywodraethwyr ar gyfer 2011-12 wedi'i anfon i gyrff llywodraethol trwy'r Cadeirydd, y Clerc a'r Llywodraethwyr Cyswllt Hyfforddiant yn ddiweddar. Mae'r llyfryn i'w weld hefyd ar ardal y Llywodraethwyr ar wefan Powys, http://www.powys.gov.uk/index.php?id=3061&L=1.

Mae'r amserlen hyfforddiant yn cynnwys amrywiaeth o bynciau, er enghraifft Iechyd a Diogelwch, Rheolaeth Ariannol, Diswyddo a Disgyblu.

Cynhelir Hyfforddiant Ymsefydlu Llywodraethwyr tua diwedd tymor yr hydref, ac yn unol â Mesur Addysg (Cymru), mae'n hanfodol fod yr holl lywodraethwyr newydd yn mynychu. Hefyd, mae'n bwysig fod pob corff llywodraethol wedi'i gynrychioli yn yr hyfforddiant ar Ddeall Data Ysgolion, a gynllunnir ar gyfer Tachwedd/Rhagfyr 2011.

I gadw lle ar sesiwn hyfforddiant,
RHAID cysylltu â'r Gweinyddydd Hyfforddiant,
Uned BSF,
Gwasanaeth Ysgolion,
Neuadd Sir Powys,
Llandrindod,
Powys, LD1 5LG.

Ffôn: 01597 826716 E-bost: bsftraining@powys.gov.uk

GRANT EFFEITHIOLRWYDD YSGOLION 2011-12

Yn dilyn adolygiad o grantiau addysg penodol, o fis Ebrill 2011 mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi dod â nifer o grantiau presennol ynghyd i'r Grant Effeithiolrwydd Ysgolion newydd. Defnyddir y Grant Effeithiolrwydd Ysgolion i symud ymlaen y tri maes blaenoriaeth, sef llythrennedd, rhifedd a lleihau effaith tlodi plant ar gyrhaeddiad addysgol.

Mae'r Awdurdod wedi dirprwyo 81% o'i ddyraniad grant i ysgolion - 67.95% trwy ddirprwyo uniongyrchol yn seiliedig ar fformwla sy'n ymwneud â niferoedd disgyblion a niferoedd athrawon tybiannol ac 11.05% trwy ddirprwyo wedi'i dargedu i gefnogi:

- Ysgolion sydd "Angen Gwella'n Sylweddol" neu sydd angen "Mesurau Arbennig" yn dilyn arolwg Estyn (bydd cymorth yn canolbwyntio ar argymhellion yr arolwg);
- Ysgolion sydd angen ymweliad dilynol gan Estyn yn dilyn arolwg (bydd cymorth ar gyfer yr ysgolion hyn yn canolbwyntio ar argymhellion yr arolwg);
- Ysgolion lle mae safonau llythrennedd yn achosi pryder;
- Ysgolion lle mae safonau rhifedd yn achosi pryder;
- Ysgolion lle mae effaith tlodi yn cael effaith ar gyrhaeddiad addysgol.

Mae dogfennaeth wedi'i hanfon i ysgolion, gyda chais fod cynllun gwario wedi'i gostio, sy'n gysylltiedig â chynllun datblygu'r ysgol a/neu cynllun gweithredu ar ôl arolwg, yn cael ei lunio a'i gyflwyno i'r Awdurdod Lleol.

Caiff gweddill y cyllid grant ei gadw'n ganolog i gefnogi blaenoriaethau strategol, yn cynnwys:

- Cymorth ar gyfer y cwricwlwm ac addysgu (llythrennedd a rhifedd);
- Cymorth ar gyfer arweinyddiaeth a rheolaeth a'r agweddau sy'n gyrru'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion, sef arweinyddiaeth, ymyrraeth, gwelliant ac atebolrwydd;
- Cymorth i ymdrin ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol trwy strategaeth sy'n canolbwyntio ar y gymuned;
- Cymorth ar gyfer dysgwyr a rhieni mewn perthynas â sicrhau fod angehnion plant a phobl ifanc gydag amrywiaeth o anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu diwallu.

Rosie Davies
Prif Swyddog Polisi

RHAGLEN MODERNEIDDIO UWCHRADD AC ÔL-16

Hoffai Cyngor Sir Powys ddiolch i'r holl lywodraethwyr, rhieni, staff, disgyblion ac aelodau'r gymuned am eu cyfraniadau at yr Ymgynghoriad Anffurfiol diweddar. Mae niferoedd da iawn wedi mynychu'r digwyddiadau ymgynghori ar draws y sir, ac mae ein cyfarfodydd gyda staff a disgyblion wedi bod yn ddefnyddiol iawn hefyd.

Mae'r ymgynghoriad yn dod i ben ar 6 Mehefin, a chaiff yr holl sylwadau ac ymatebion eu dadansoddi dros yr haf, a fydd yn helpu'r Cyngor i wneud penderfyniad o ran a ydym yn mynd i gymryd unrhyw rai o'r cynigion presennol ymlaen. Bydd y dadansoddiad ar gael ar ein gwefan www.powys.gov.uk Unwaith eto, diolch am eich holl gefnogaeth a'ch cyfraniad.

Marianne Evans
Rheolwr Prosiect Moderneiddio Uwchradd

MODERNEIDDIO CYNRADD

Mae llawer o weithgarwch wedi bod mewn perthynas â moderneiddio cynradd, wrth i'r Cyngor Sir barhau i geisio dod i'r afael â'r mater o ostyngiad mewn niferoedd, costau cynyddol ac adeiladau sy'n dirywio, tra'n ymdrechu i ddarparu addysg o'r radd flaenaf ar gyfer ein pobl ifanc. Tra bo ariannu ysgolion newydd ac wedi'u hailfodelu yn y dyfodol yn ddibynnol ar gyllid cyfalaf gan Lywodraeth y Cynulliad trwy raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, mae'r rhaglen adolygu ardal yn parhau, gan obeithio y cawn ganlyniad positif i'r ceisiadau sydd wedi'u gwneud.

Ystradgynlais

Ar hyn o bryd, rydym yn dal i aros am gymeradwyaeth gan y gweinidog ar y cynigion statudol i gau'r ddeg ysgol yn y dalgylch ac i godi pedair ysgol newydd yn eu lle. Daw'r penderfyniad hwn ar ôl etholiadau'r Cynulliad. Mae hyn yn golygu y bydd heriau sylweddol yn ein hwynebu ar gyfer y rhaglen adeiladu, ond rydym dal yn bwriadu y bydd yr ysgolion wedi'u cwblhau ym mis Medi 2012.

Mae cymeradwyaeth cynllunio wedi'i ddirprwyo wedi'i ganiatau ar gyfer y pedair ysgol newydd ym Mhenrhos, Abercraf, Brynderi a Glanrhyd, ac ar gyfer symud Cwm Wanderers i Bethel Road.

Mae contractwr – Wilmott Dixon – wedi'i benodi i adeiladu'r pedair ysgol gynradd newydd ac i gwblhau'r gwaith adnewyddu ac ymestyn yn Ysgol Maes-y-dderwen.

Mae ymgynghori wedi digwydd ar y broses ar gyfer penodi llywodraethwyr i'r pedwar corff llywodraethol cysgodol ar gyfer yr ysgolion newydd, a'r targed yw y bydd y rhain yn eu lle erbyn diwedd y flwyddyn ysgol 2011, er bod hyn yn dibynnu'n fawr ar amseriad penderfyniad y gweinidog.

Mae gwaith wedi dechrau ar strwythur staffio drafft ar gyfer y pedair ysgol, a bydd ymgynghori yn digwydd ym mis Mehefin ar ddogfen Rheoli Newid a fydd yn amlinellu sut y mae'r cyngor yn cynnig symud o'r strwythur staffio presennol i'r strwythur staffio arfaethedig. Y targed yw i benodi'r pedwar pennaeth yn ystod Tymor yr Hydref 2011.

Gwernyfed

Yn dilyn penderfyniad y Bwrdd Prosiect Ardal ym mis Ionawr i ad-drefnu ysgolion yr ardal dalgylch o ddeg i bump, cynhaliwyd dau sesiwn galw i mewn yn Y Gelli a Thalgarth ar ddechrau mis Ebrill i esbonio'r broses. Fe wnaeth nifer dda fynychu'r sesiynau, a chaiff y canlyniadau eu hadrodd yn ôl i Gabinet y Cyngor, lle gwneir penderfyniad ynglŷn â phryd y cynhelir ymgynghori ffurfiol ar y cynigion. Mae'r cynigion y mae'r Cyngor yn ymgynghori arnynt yn cynnwys darparu dwy ysgol newydd yn Y Gelli a Thalgarth, adnewyddu ysgolion yr Archddiacon Griffiths, Llangors a Chleirwy a chau ysgolion y Clas-ar-Wy, Ffynnongynydd, Rhosgoch, Bronllys a Llanigon.

John Beddoes

Fe wnaeth y Bwrdd Prosiect Ardal ystyried trefniant ysgolion yn yr ardal dalgylch tua dechrau mis Mai. Yr argymhelliad a gafodd ei ystyried gan y cyfarfod hwn oedd i leihau nifer y safleoedd ysgolion yn yr ardal dalgylch o chwech i dri, a fyddai'n golygu ymgynghori ar gynnig i gau ysgolion Bugeildy, Chwityn a Llanfair Llythynwg.

Cyfrwng Cymraeg Dyffryn Hafren

Ar ddechrau Mai, fe wnaeth y Bwrdd Prosiect Ardal ystyried adroddiad a oedd yn argymell darparu ysgol gynradd Gymraeg newydd yn Y Drenewydd. Caiff dyfodol yr ysgolion cyfrwng Cymraeg y tu allan i'r Drenewydd ei ystyried gan yr adolygiadau yn Llanidloes/Machynlleth a'r Trallwng.

Llanidloes/Machynlleth

Mae trafodaethau cychwynnol y Bwrdd Prosiect Ardal hwn wedi canolbwyntio ar y syniad o ysgol syth drwodd h.y. 3 i 16/19 yn y ddau dref ac ardal dalgylch, a sefydlwyd dau is grŵp i ymchwilio ymhellach i hyn.

MODERNEIDDIO CYNRADD

Ysgolion bach yn cynnwys Aberhafesb

Mae Bwrdd y Cyngor wedi ystyried dyfodol ysgolion bach h.y. y rheiny gyda llai na 35 disgybl ar ddau achlysur, ac wedi derbyn gwybodaeth ar yr un ar ddeg ysgol sydd y tu allan i'r adolygiadau dalgylch. O ganlyniad, cynhaliwyd cyfarfodydd gyda'r ysgolion hyn er mwyn casglu data a chasglu barn cyn fod Cabinet y Cyngor yn ystyried y mater eto.

Mae pethau wedi symud ymlaen ymhellach mewn perthynas ag un o'r ysgolion bach hynny, Ysgol G.G. Aberhafesb, oherwydd gostyngiad sylweddol mewn niferoedd disgyblion a dirywiad mewn safonau addysgu yn yr ysgol. Cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus ar 14 Ebrill i drafod cynnig y Cyngor i gau'r ysgol erbyn Nadolig 2011. Y dyddiad cau ar gyfer sylwadau ar y cynnig hwn yw 31 Mai, ac ar ôl hyn, bydd Cabinet y Cyngor yn ystyried y sylwadau a dderbynnir, er ei fod eisoes wedi cytuno i gyhoeddi rhybuddion statudol i gau ym mis Mehefin. Erbyn hyn, y cyfnod ar gyfer cyhoeddi rhybudd statudol yw un mis calendr (yn hytrach na dau mis fel yr oedd yn y gorffennol), ond os derbynnir un gwrthwynebiad i'r rhybudd, mae hi dal yn ofynnol i gyfeirio'r penderfyniad i'r Gweinidog yn Llywdoraeth Cynulliaed Cymru.

Ysgrifennwyd yr erthygl hwn yn ystod wythnos gyntaf mis Mai, ac mae moderneiddio ysgolion cynradd yn symud yn gyflym iawn, felly am y wybodaeth ddiweddaraf am yr uchod, cysylltwch ag Owen James ar 01597 826709 neu owen.james@powys.gov.uk

Owen James
Rheolwr Cymorth Moderneiddio Ysgolion

Mae'r Mudiad Llysgenhadon Ifanc yn anelu i alluogi ac ysbrydoli pobl ifanc i ddod yn fodelau rôl ac arweinwyr trwy chwaraeon, trwy ddatblygu eu hyder a'u sgiliau er mwyn cynyddu cyfranogiad gweithgaredd corfforol mewn eraill. Bydd y Llysgenhadon Ifanc yn defnyddio Gemau Olympaidd a Pharalympaidd Llundain 2012 fel catalydd i ysbrydoli newid mewn eraill. Bydd y fenter yn adnabod ac yn gwobrwyo arweinwyr chwaraeon ymroddedig ifanc yn ein ysgolion a'n cymunedau gyda hyfforddiant a chyfleoedd pellach.

Mae 3 o Lysgenhadon Ifanc Aur wedi'u dewis i gynrychioli Powys, sef James Davies a Nia Breeze o Ysgol Uwchradd Llanfyllin a Rhiannon Howells o Ysgol Uwchradd Gwernyfed. Mae pob ysgol uwchradd hefyd wedi penodi 2 adiStar a fydd yn helpu'r llysgenhadon aur gyda'u rôl. Cynhaliwyd y diwrnod hyfforddiant adiStar yng Ngwesty'r Metropole yn Llandrindod ar 8 Ebrill a chafodd y diwrnod ei drefnu a'i redeg gan y 3 llysgennad aur. Roedd Martyn Lewis, chwaraewr Badminton Cymraeg, a Gwennan Harries, llysgennad ar gyfer pêl-droed merched yng Nghymru, yn bresennol, a chafodd y disgyblion gyfle i siarad gyda hwy a holi cwestiynau. Nawr, bydd yr adiStars yn dechrau eu rôl yn eu hysgolion yn nhymor yr haf. Mae'r arweinwyr hyn wedi'u hadnabod trwy eu gwaith o fewn cwricwlwm yr ysgol (AG ac ehangach) a'u cyfraniad at weithgareddau allgyrsiol fel Campau'r Ddraig a 5x60.

Tîm Pobl Ifanc Weithgar

MESUR ADDYSG (CYMRU) 2011

Derbyniodd y Mesur Addysg (Cymru) 2001 Gymeradwyaeth Frenhinol ar 10 Mai 2011. Mae'r Mesur yn ymestyn polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru i wneud y system addysg yn fwy effeithiol trwy greu cyfraith newydd ar gyfer cydweithio a ffedereiddio, ac atal creu mwy o ysgolion sefydledig. Hefyd, mae'r Mesur yn ymdrin â phwyntiau a godwyd gan adolygiad y Cynulliad Cenedlaethol o lywodraethwyr ysgol yn 2009 mewn perthynas â hyfforddiant i lywodraethwyr a chlercio. Bydd y newidiadau hyn yn cryfhau llywodraethu'r system addysg ysgolion.

Y bwriad yw y bydd yr holl newidiadau yn eu lle erbyn mis Medi 2012 yn barod ar gyfer dechrau'r flwyddyn academaidd honno.

Mae'r prif bwyntiau wedi'u rhestru isod:

Cydweithio

Mae yna ddyletswydd newydd ar gyrff addysgol – awdurdodau lleol, ysgolion a sefydliadau addysg bellach – i ystyried a allant ddarparu addysg a hyfforddiant ar gyfer dysgwyr 19 oed ac iau mewn ffyrdd sy'n defnyddio adnoddau cyhoeddus mewn modd mwy effeithlon ac effeithiol.

Ffedereiddio

Y newid pwysig yw i greu pŵer newydd i awdurdodau lleol gynnig a gweithredu ffedereiddio ysgolion. Hyd yn hyn, dim ond cyrff llywodraethol ysgolion sy'n gallu dewis gwneud hyn.

Hyfforddiant i Lywodraethwyr Ysgol

Mae'r Mesur yn cyflwyno dull i reoleiddio ar gyfer hyfforddiant gorfodol, yn unol ag amcanion Llywodraeth Cynulliad Cymru i godi safonau mewn ysgolion. Mae'n debyg mai'r pynciau hyfforddiant cyntaf i'w gwneud yn orfodol fydd ymsefydlu ar gyfer llywodraethwyr newydd, hyfforddiant i gadeiryddion cyrff llywodraethol a hyfforddiant ar sut i ddeall a defnyddio data ar berfformiad yr ysgol.

Clercio Cyrff Llywodraethol Ysgolion

Bydd rhaid i awdurdodau lleol gynnig gwasanaeth clercio i gorff llywodraethol pob ysgol. Bydd ysgolion yn rhydd i wneud eu trefniadau clercio eu hunain os ydynt yn dymuno, neu i drefnu i rywun arall ddarparu'r gwasanaeth hwn. Bydd angen i Glercod gwrdd â safon Cymru gyfan i'w osod mewn rheoliadau, a bydd rhaid gwneud hyfforddiant ar gael i glercod i gwrdd â'r safon hwn.

Ysgolion Sefydledig

Mae'r Mesur yn gwahardd creu mwy o ysgolion sefydledig.

Mae testun y Mesur a Memorandwm Esboniadol ar gael ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol, sef: http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation/bus-leg-measures/proposed_education_wales_measure_2011.htm

YN FYR

Cyfranogiad Disgyblion

Mae cyfranogiad disgyblion yn ymwneud â datblygu diwylliant mewn ysgolion lle mae gan yr holl blant a phobl ifanc lais, a lle maent yn cael cyfle i chwarae rôl weithgar mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu dysgu a'u lles, fel y nodir yn Erthygl 12 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC). Mae cael Cyngor Ysgol gweithgar yn rhan hanfodol o hyn, ond dim ond un agwedd yw hyn.

Dylai cyfranogiad disgyblion ddigwydd mewn amrywiaeth o ffyrdd ac ar wahanol lefelau o fywyd ysgol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Fel rhan o addysgu a dysgu;
- Prosesau fel amser cylch, grwpiau ffocws, ac ymgynghoriadau;
- Grwpiau cyfranogol fel cyngor yr ysgol, pwyllgor eco, ysgolion iach a mentoriaid cymheiriaid;
- Cael strwythurau yn eu lle, fel y gall yr holl ddisgyblion fod yn gysylltiedig â gwneud penderfyniadau, yn cynnwys y rheiny sydd ag anghenion dysgu ychwanegol;
- Defnyddio'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol (www.participationworkerswales.org.uk)

Mae enghreifftiau o sut y gall cyfranogiad disgyblion arwain at ysgolion mwy effeithiol ar gael ar y wefan Effeithiolrwydd Ysgolion (www.sef.wales.org.uk) ac ar wefan Llais Disgyblion Cymru (www.pupilvoicewales.org.uk).

Trefn cwynion ar gyfer cyrff llywodraethol ysgolion yng Nghymru

Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymgynghori ar gyfarwyddyd diwygiedig am weithdrefnau cwynion ar gyfer cyrff llywodraethol ysgolion. Mae'r cyfarwyddyd yn cael ei wneud yn symlach, yn fyrrach ac yn fwy addas i ddefnyddwyr, a bydd yn cynnwys gweithdrefn model i gyrff llywodraethol ysgolion ei ddefnyddio wrth ddelio gyda chwynion.

Bydd y cyfarwyddyd terfynol a'r gweithdrefnau model ar gael yn nes ymlaen eleni.

Maes Llafur AG Cytunedig Powys

Mae Maes Llafur Cytunedig yr Awdurdod ar gyfer Addysg Grefyddol wedi'i adolygu gan Gyngor Ymgynghorol Sefydlog Powys ar Addysg Grefyddol (CYSAG). Mae'r maes llafur cytunedig lleol yn seiliedig ar y Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol i blant 3-19 oed yng Nghymru (2008) a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, ac a ysgrifennwyd i gydymffurfio â'r goblygiadau cyfreithiol ar gyfer maes llafur a gytunir yn lleol. Mae'r Maes Llafur Cytunedig wedi'i fabwysiadu ar gyfer y cyfnod pum mlynedd o 2011-2015.

Mae'r ddogfen wedi'i dosbarthu i ysgolion, ac mae ar gael i'w lawrlwytho o ardal Addysg a Dysgu gwefan yr Awdurdod, www.powys.gov.uk

Profi Cydymffurfiaeth Statudol

Mae'r Cyngor Sir wedi penderfynu y caiff cynnal a chadw, profi ac arolygu statudol ar gyfer ei holl adeiladau ac offer ei wneud yn ganolog, i sicrhau cydymffurfiaeth cyfreithiol llawn. Mae'r polisi hwn hefyd yn berthnasol i ysgolion, er bod gan ysgolion yr opsiwn i optio allan o'r trefniadau canolog ac ymgymryd â'u cyfrifoldebau profi statudol eu hunain. Os yw ysgolion yn optio i mewn neu allan, bydd y penderfyniad yn cynnwys yr holl amrywiaeth o wasanaethau y mae angen eu profi.

Gall ysgolion sydd eisiau cymryd rhan yn y trefniadau a drefnir yn ganolog wneud hynny trwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth. Bydd yr ysgolion hynny sy'n penderfynu gwneud eu trefniadau eu hunain yn cael eu monitro gan y Cyngor Sir.

Mae Lwfans Profi Statudol wedi'i sefydlu o fewn cyllidebau dirprwyedig ysgolion a fydd yn cyfateb â chost ymgymryd â'r profi statudol sy'n ofynnol. Mae ysgolion wedi'u gwneud yn ymwybodol o'r trefniadau hyn.

Ffôn: 01597 826402 **E-bost: beth.groves@powys.gov.uk**

Ysgolion a Chynhwysiant, Cyngor Sir Powys, Neuadd y Sir, Llandrindod, Powys. LD1 5LG

Argraffwyd ar bapur wedi'i ailgylchu ● Printed on recycled paper